



Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales Fire and Rescue Service

# CRYNODEB O ADRODDIAD YMGYSYLLTU SESIYNAU GALW HEIBIO CRHRC 2040

# TROSOLWG O YSTADEGAU YMGYSYLLTU CRHRC 2040

## ROEDD 49% YN GYFARWYDD Â'R GWASANAETHAU A DDARPERIR GAN GTACVC

## PRIF GYFRIFOLDEBAU

- 21% ATAL TANAU A HYRWYDDO MENTRAU DIOGELWCH Y CYHOEDD
- 67% TANAU
- 48% GWRTHDRAWIADAU AR Y FFORDD

## I MEYSYDD PWYSIG GANOLBWYNTIO ARNYNT

- 69% AMSEROEDD YMATEB
- 28% MENTRAU ATAL
- 26% CYMORTH I UNIGOLION SY'N AGORED I NIWED
- 24% PARODRWYD AR GYFER ARGYFYNGAU SY'N GYSYLLTIEDIG A'R HINSAWDD

## AROLWG

728 O ATEBION

ROEDD 15% O'R YMATEBION GAN STAFF

## CYRHAEDDIAD AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

| | |
|---|---|
| CYFANSWM CYRHAEDDIAD | 52,287 |
| CYFANSWM YR ARGRAFFIADAU | 54,627 |
| CYFANSWM YR YMGYSYLLTIAD | 2,954 |

## PRIF HERIAU

- 43% AMSEROEDD YMATEB
- 24% RECRIWTIO A CHADW
- 12% ARIANNU A THORIADAU CYLLID

## YMGYSYLLTIAD

| | |
|---|---|
| 3,856 | O YMWELIADAU Â'R WEFAN |
| 2,653 | NIFER A WYLIWYD Y FIDEO YMGYMNGHORI CYMRAEG |
| 5,083 | NIFER A WYLIWYD Y FIDEO YMGYMNGHORI SAESNEG |
| 38 | NEGESEUON AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL |
| 34 | O SESIYNAU YMGYSYLLTU GALW HEIBIO |

## ROEDD GAN 35% YMWYBYDDIAETH O SUT MAE GTACGC YN CAL EI ARIANNU

# Addasu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gyda'n Gilydd

## YMGYSYLLTIAD

- GOHEBIAETH E-BOST A LLYTHYRAU
- ARWYDDION DIGIDOL
- 34 O SESIYNAU GALW HEIBIO CYMUNEDOL
- CYFARFODYDD
- FIDEOS
- ERTHYGL WALES ONLINE
- YMGYRCH AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL
- HYSBYSEBU DIGIDOL A TALWYD AMDANO
- GWEMINARAU
- TAFLENNI A PHOSTERI

# Yr angen am newid... Moderneiddio ein Gwasanaeth Tân ac Achub.

## Yn ogystal â'n gwasanaeth rheng flaen, rydym yn gwybod bod angen i ni drawsnewid llawer o agweddau ar ein Gwasanaeth.

### Y newid yn natur risgiau ac argyfyngau

Mae cymunedau canolbarth a gorllewin Cymru yn newid, ac felly hefyd y mathau o ddigwyddiadau y mae'r Gwasanaeth yn ymateb iddynt. Mae presenoldeb mewn digwyddiadau sy'n gysylltiedig â thân wedi lleihau, a hynny'n rhannol oherwydd pwyslais ar atal a diogelu. Gellir gweld effeithiau newid yn yr hinsawdd gyda chynnydd yn nifer yr achosion o danau gwyllt, llifogydd a thrychinebau naturiol yr ydym wedi ymateb iddynt dros y blynyddoedd diwethaf.

### Anghenion y gymuned

Rhwng 2011 a 2021 tyfodd y boblogaeth gyffredinol lai nag 1%.

Cynyddodd nifer y bobl sy'n byw dros 65 oed 18%.

Dros y 5 mlynedd diwethaf ymatebodd GTACGC i 15,209 o alwadau gwasanaeth arbennig a 5,028 o alwadau ymateb meddygol.

Mae nifer yr achosion o lifogydd, achub, a gorfod diogelu eiddo rhag difrod dŵr hefyd wedi cynyddu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

### Gwell diogelwch ac atal

Mae presenoldeb mewn tanau bwriadol wedi parhau i leihau dros y blynyddoedd diwethaf.

### Gwella ein diwylliant sefydliadol

Rhaid i GTACGC wella ei ddiwylliant sefydliadol i sicrhau ei fod yn gweithredu o fewn y safonau a ddisgwylir gan Wasanaeth Tân ac Achub modern.

### Lleihau ein hôl troed carbon

Mae angen i'r Gwasanaeth sicrhau ei fod yn gweithio mewn ffordd sy'n ystyriol o'r amgylchedd ac yn gynaliadwy, gan gyflawni ei ran wrth alluogi Cymru i gyrraedd Sero Net. Mae angen i GTACGC archwilio tanwyddau amgen ar gyfer y fflyd o beiriannau ac mae angen iddo sicrhau bod ei adeiladau'n cael eu hadnewyddu i leihau cymaint â phosibl ar eu hôl troed carbon.

### Technoleg

Mae datblygiadau technolegol wedi trawsnewid galluoedd ac effeithiolrwydd Gwasanaethau Tân ac Achub modern a gallant helpu i wella effeithiolrwydd cyffredinol y Gwasanaeth a lleihau'r risgiau i ddiffoddwyr tân a chymunedau.

# Gofynnon ni.....methodoleg

## Cydnabyddir bod ymgysylltu ac ymgynghori yn unol â'r arferion gorau yn arwain at ganlyniadau gwell, gan ganiatáu i brofiadau pobl eraill gael eu clywed, a rhoi gwybodaeth werthfawr a all gefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol

Y cam cyntaf mewn proses ymgysylltu eang oedd ymgynghori â budd-ddeiliad allweddol i gynorthwyo i ddiffinio unrhyw faterion neu heriau y gallai'r Gwasanaeth eu hwynebu wrth gyflawni CRhRC 2040.

Rhwng dydd Llun, 28 Ionawr 2025 a dydd Iau, 13 Mawrth 2025, cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd ar raddfa eang trwy gyfres o 34 o sesiynau galw heibio, a'r nod oedd casglu barn y cyhoedd, budd-ddeiliad allweddol, a staff, ar y materion a'r heriau yr ydym yn eu hwynebu fel Gwasanaeth Tân ac Achub. Fe wnaethom gynnal nifer o ddigwyddiadau mewn lleoliadau mewnol ac allanol i sicrhau ein bod yn cysylltu â phob ardal o'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu ar draws canolbarth a gorllewin Cymru.  Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adroddiad ymgysylltu llawn.

# Sut cafodd ymatebion eu dadansoddi?

## Roedd y cwestiynau yn yr arolwg yn rhai testun rhydd ac felly cafwyd ymatebion manwl. .

Ar gyfer y rhan fwyaf o gwestiynau, defnyddiwyd fersiwn syml o Fframwaith 6 cam ar gyfer Dadansoddi Thematig Braun a Clarke i ddadansoddi'r ymatebion. Darllenwyd yr ymatebion i bob cwestiwn a phennu 'thema' ar eu cyfer yn unigol. Yna cawsant eu triongli a chafodd y themâu cychwynnol eu mireinio a'u grwpio yn y themâu lefel uchel sydd wedi'u nodi ar gyfer pob un o'r newidiadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

# Canfyddiadau allweddol o'r hyn a ddywedodd y cymunedau wrthym.....

Cafwyd 728 o ymatebion i'r arolwg

721 o ymatebion Saesneg a 7 o ymatebion Cymraeg

Roedd **49%** o'r ymatebwyr yn gyfarwydd i raddau â'r gwasanaethau a ddarperir gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Roedd **35%** o'r ymatebwyr yn ymwybodol i raddau o sut mae GTACGC yn cael ei ariannu.

## Rhestrwyd y tri phrif gyfrifoldeb ar gyfer GTACGC fel a ganlyn gan ymatebwyr:

**67%** ymateb i danau.

**48%** ymateb i wrthdrawiadau traffig ar y ffordd.

**21%** ymateb i lifogydd.

# Themâu allweddol

Rhai o'r prif themâu mewn perthynas ag **ymwybyddiaeth a chanfyddiad cyffredinol o GTACGC** a amlygwyd gan ymatebwyr oedd:

- Cysylltiad cymunedol ac ymddiriedaeth.
- Diogelwch gwledig ac ymateb brys.
- Ymgysylltu â'r gymuned ac addysg.
- Rôl esblygol mewn gwasanaethau brys.
- Canfyddiadau o ansawdd y gwasanaeth.
- Ymwybyddiaeth gyffredinol o'r gwasanaethau a ddarperir.

Rhai o'r prif themâu mewn perthynas ag **ariannu GTACGC** a amlygwyd gan ymatebwyr oedd:

- Cyfyngiadau ariannol, gan gynnwys toriadau cyllideb.
- Cynaliadwyedd ariannol hirdymor.
- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd.
- Effaith yr argyfwng costau byw.
- Anghenion daearyddol.
- Galw cynyddol am wasanaethau.

Rhai o **brif gyfrifoldebau GTACGC** a amlygwyd gan ymatebwyr oedd:

- Ymateb brys yn brif swyddogaeth y Gwasanaeth.
- Atal.
- Cymorth meddygol.
- Cymhlethdod anghenion cymunedol.
- Adnoddau a chyllid.
- Ymgysylltu ac ymwybyddiaeth gymunedol.

Rhai o'r **meysydd ffocws pwysig ar gyfer GTACGC** a amlygwyd gan ymatebwyr oedd:

- ▪ Amseroedd ymateb.
- ▪ Atal a Diogelu
- ▪ Technoleg diffodd tanau.
- ▪ Perthnasoedd a phartneriaethau cymunedol.
- ▪ Newid yn yr hinsawdd.
- ▪ Iechyd meddwl a lles staff.

Rhai o'r **prif heriau sy'n wynebu GTACGC** a amlygwyd gan ymatebwyr oedd:

- Lles ac iechyd a lles meddyliol staff.
- Amseroedd ymateb, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
- Adeiladau sy'n heneiddio a gwaith cynnal a chadw arnynt.
- Poblogaeth sy'n heneiddio.
- Diwylliant sefydliadol.
- Cyfyngiadau ariannol.
- Heriau gyda recriwtio a chadw diffoddwyr tân, yn enwedig diffoddwyr tân ar alwad.
- Ymgysylltu â'r gymuned a chefnogaeth

Dyma rai o'r **risgiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg y dylai GTACGC** eu hystyried a amlygwyd gan ymatebwyr:

- Newid yn yr hinsawdd a phryderon amgylcheddol, megis difrifoldeb stormydd gyda digwyddiadau llifogydd a thanau gwyllt.
- Cofleidio Deallusrwydd Artiffisial (AI) a thechnoleg fodern.
- Cyfyngiadau ariannol.
- Risgiau anwybyddu aelodau difreintiedig o'r gymdeithas.
- Lles staff, iechyd a lles meddyliol a morâl isel.
- Cerbydau trydan ac ymdrin â digwyddiadau.
- Y gallu i ymdrin â chleifion bariatrig.
- Mwy o bresenoldeb mewn galwadau meddygol.
- Ymosodiadau seiberddiogelwch.
- Heriau yn sgil y newid demograffig a'r newid mewn poblogaeth, gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio.
- Batris lithiwm.
- Hyfforddiant digonol i adlewyrchu rôl diffoddwr tân modern, yn unol â risgiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.
- Darparu gwasanaethau gwledig, megis amseroedd ymateb a chau/israddio gorsafoedd.
- Amseroedd ymateb ambiwlansys.
- Cynnydd mewn traffig a chynnal a chadw seilwaith ffyrdd.
- Yr argyfwng costau byw.
- Adeiladau sy'n heneiddio, gan gynnwys llety myfyrwyr.
- Newidiadau i batrymau shifftiau amser cyflawn.
- Gweithgaredd troseddol, fel tanau bwriadol.

Rhai o'r **agweddau bregus cymunedol y dylai GTACGC** fod yn eu hystyried a amlygwyd gan ymatebwyr oedd:

- Mesurau ataliol a rheoli risg.
- Canolbwyntio ar boblogaethau bregus.
- Amseroedd ymateb mewn ardaloedd gwledig.
- Pwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned a gweithio mewn partneriaeth, megis cael perthnasoedd gwaith agos â gwasanaethau cymdeithasol.
- Addysg diogelwch tân i gadw pobl yn ddiogel.
- Cleifion bariatrig.
- Gostyngiad mewn gwasanaethau ysbyty a diffyg ambiwlansys sydd ar gael.
- Yr amser a gymerir i ymateb ar ffyrdd gwledig gyda cherbydau mawr.
- Baglu a syrthio, gyda phreswylwyr oedrannus a phoblogaeth sy'n heneiddio.
- Tanau glaswellt a choetir sy'n effeithio ar gartrefi gwledig.
- Llifogydd.
- Celcio.
- Cynnydd mewn hunanladdiadau.
- Mewnlifiad tymhorol o ymwelwyr a mwy o draffig.
- Ymgysylltu'n glir â'r cyhoedd pan fydd yna ystyriaethau fel anableddau, amhariadau ar y clyw, anawsterau dysgu neu bobl sydd â Saesneg yn ail iaith iddynt.
- Iechyd meddwl a lles cymunedol.
- Diogelwch ar y ffyrdd
- Heriau recriwtio a chadw.

# Sylwadau ac adborth ychwanegol

(The responses below appear exactly as they were written by the respondents)

Roedd yr adborth a gafwyd gan ymatebwyr yn gadarnhaol ar y cyfan, gan gydnabod y gwaith da y mae'r Gwasanaeth yn ei wneud.

- ***Mae'r frigâd dân yn wasanaeth gwych a hollol hanfodol. Diolch am bopeth rydych chi'n ei wneud.***
- ***Diolch am eich holl gymorth.***
- ***Daliwch ati â'ch holl waith caled.***
- ***Mae diffoddwyr tân Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi'u hyfforddi'n dda ac mae'n sefydliad proffesiynol iawn. Maent yn rhoi gwasanaeth heb ei ail.***
- ***Dod yn fwy gweladwy o safbwynt gwaith da y gwasanaeth. Ddim yn gallu cofio'r tro diwethaf i mi glywed stori newyddion da ynglŷn â'r gwasanaeth.***
- ***O'm profiad i, rydyn ni (y cyhoedd) yn cael gwasanaeth rhagorol.***
- ***Rwy'n hynod ddiolchgar am y gwasanaethau a roddir i'n cymuned a hoffwn ddiolch i chi am eich ymroddiad.***

Cafwyd nifer fawr o ymatebion yn nodi na ddylid colli unrhyw agwedd ar ddarpariaeth y Gwasanaeth, megis israddio Gorsafoedd neu gau Gorsafoedd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Pwysleisio'r angen i bob Gorsaf ar draws ardal y Gwasanaeth fod â'r offer i ymdrin â phob math o ddigwyddiadau.

- ***Dylai pob gorsaf allu mynd i unrhyw ddigwyddiad, nid dim ond digwyddiadau penodol.***
- ***Mae'n hanfodol bod gorsafoedd lleol yn parhau i fod ar gael. Mae angen i ni gadw amseroedd ymateb mor isel â phosibl ac mae angen darparu'r gwasanaethau hanfodol hyn yn gyflym ac yn lleol.***
- ***Hyfforddwch yr holl orsafoedd ar alwad i'r un lefel ag y maent arni ar hyn o bryd. Byddai'n gwbl hurt aros am awr i injan dân gyrraedd mewn argyfwng.***
- ***Peidiwch â chau unrhyw orsafoedd tân yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle gallai'r amser ymateb fod yn hollbwysig.***
- ***Ni fyddwn yn hoffi gweld y gwasanaeth maen nhw'n ei ddarparu yn lleihau.***
- ***Mae'n hollol hanfodol bod y gorsafoedd gwledig yn cael eu hariannu, eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.***
- ***Mae adnoddau lleol yn allweddol wrth ddiffodd ac atal tanau.***

Roedd ymatebwyr hefyd yn cydnabod heriau recriwtio a chadw diffoddwyr tân Ar Alwad, ynghyd â'r gofynion hyfforddi a'r ymrwymiad sydd ei angen i ymgymryd â rôl diffoddwr tân Ar Alwad.

- ***Recriwtio mwy o ddiffoddwyr tân i gadw gorsafoedd ar gael 24/7.***
- ***Canolbwyntio ar recriwtio.***
- ***Gwella'r system recriwtio.***
- ***Mae angen mwy o gefnogaeth gan y gwasanaeth wrth recriwtio diffoddwyr tân newydd ar alwad a sicrhau bod y rhai sydd eisoes yn y gwasanaeth yn gallu parhau i wasanaethu.***
- ***Canolbwyntio ar hyfforddiant.***
- ***Rhoi hyfforddiant trylwyr ar gyfer pethau fel cerbydau trydan, Petrogemegion, diffodd tanau ar y môr.***
- ***Mwy o gymhellion i annog staff ar alwad i aros yn y gwasanaeth. - Arian a buddion.***
- ***Diffoddwyr tân peripatetig i gefnogi gorsafoedd tân ar alwad.***
- ***Cydnabuwyd bod rhaglenni addysg ac ymwybyddiaeth i ysgolion yn fuddiol i gymunedau.***
- ***Mae'r fenter o fynd i ysgolion i addysgu plant ynghylch sut i fod yn ddiogel ac yn ddoeth yn dda iawn.***
- ***Mwy o fynediad at hyfforddiant diogelwch tân i bobl gyfrifol mewn eiddo cymunedol.***
- ***Mwy o raglenni ymwybyddiaeth.***

# Gwersi a ddysgwyd

**Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod bod ymgysylltu ac ymgynghori yn unol â'r arferion gorau yn arwain at ganlyniadau gwell, gan ganiatáu i brofiadau pobl eraill gael eu clywed, a rhoi gwybodaeth werthfawr a all gefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol.**

Mae gwrando ar farn staff, cymunedau, sefydliadau partner, undebau llafur, aelodau etholedig a phobl ar draws canolbarth a gorllewin Cymru yn hynod o bwysig.

Felly, bydd GTACGC yn parhau i sicrhau bod barn yr holl fudd-ddeiliad yn cael ei hystyried yn llawn wrth helpu i ail-lunio Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, gyda'n gilydd, drwy sicrhau bod gan staff, cymunedau, sefydliadau partner, undebau llafur ac aelodau etholedig ddealltwriaeth glir o'r risgiau a'r blaenoriaethau i sicrhau bod GTACGC yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.

Cyflawnwyd lefel uchel o ymgysylltu mewn llyfrgelloedd cyhoeddus, canolfannau hamdden a phrifysgolion.

Bydd y lleoliadau hyn yn cael eu hystyried ar gyfer pob digwyddiad ymgysylltu yn y dyfodol er mwyn ymgysylltu â chynifer o fudd-ddeiliad â phosibl.

# Y Camau Nesaf

## Cwmpasu


Mae'r camau nesaf a awgrymir isod wedi'u cynllunio fel rhan o'r gwerthusiad o'r opsiynau, sy'n cynnwys proses gwmpasu. Mae cwmpasu'n cynnwys y broses o ymgysylltu â phartïon â diddordeb i drafod sut y dylid mynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn y papur hwn sydd angen eu datrys, a pha syniadau ac awgrymiadau sydd ganddynt.

Bydd gwaith craffu'n digwydd ar yr wybodaeth a'r manylion o'r papur materion a bydd penderfyniad gwybodus yn cael ei wneud ynghylch a yw'r atebion i'r materion yn rhai y dylid ymgynghori'n gyhoeddus arnynt ynteu'n rhai y dylid penderfynu arnynt o fewn y Cyfansoddiad. Dim ond materion yr ymgynghorir yn gyhoeddus arnynt fydd yn cael eu cyflwyno i gam 3, yr ystafelloedd cytbwys. Mae'r broses gwmpasu yn bwysig i gynorthwyo'r cyhoedd i ddeall ble a

## Ystafelloedd cytbwys

Mae ystafelloedd cytbwys yn fforymau lle mae gwahanol fudd-ddeiliad, gyda'u gwahanol safbwyntiau, buddiannau a phwerau, yn cael cynrychiolaeth gyfartal ac yn gallu cymryd rhan mewn ffordd ystyrlon. Nod ystafell gytbwys yw meithrin deialog agored a sicrhau bod pob safbwynt perthnasol yn cael ei ystyried.

Bydd trafodaethau yn ystod ystafelloedd cytbwys yn archwilio lliniaru risg, trafod a mynd i'r afael â materion a llunio rhestr hir o atebion (heb unrhyw derfynau).  Canlyniad ystafelloedd cytbwys fydd rhestr hir o opsiynau gweithredu, a fydd wedyn yn cael eu gwerthuso i nodi tri i bum opsiwn a fydd yn symud ymlaen i ymgynghoriad cyhoeddus. Er mwyn rhoi tryloywder o fewn y broses ymgynghori, bydd yr holl feini prawf rhwystrau a llinellau coch yn cael eu cyhoeddi mewn papur allbwn. Bydd y papur allbwn yn manylu ynghylch pam nad yw rhai opsiynau a grëwyd yn yr ystafelloedd cytbwys wedi'u cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.



# Diolch

**Mae GTACGC yn hynod ddiolchgar i bawb am eu hamser a'u hymdrech yn rhoi eu barn ar sut y gall wella fel Gwasanaeth Tân ac Achub a bydd yn parhau i adolygu ei ddulliau ymgysylltu i sicrhau ei fod yn parhau i gyfathrebu â budd-ddeiliad mewn ffordd ystyrlon ac effeithiol.**


Hoffem ddiolch i bawb a dreuliodd amser yn rhoi eu hadborth gwerthfawr i ni, boed hynny trwy lenwi'r holiadur ar-lein, ysgrifennu atom, dod i un o'n gweminarau byw neu ymgysylltu â ni ar ein llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol. Mae rhagor o wybodaeth am ein hymateb i'r ymgynghoriad ar gael yn ein hadroddiad ymgynghori.

Rydym yn croesawu eich sylwadau a'ch awgrymiadau ac yn eich annog i roi eich barn i ni ar sut y gallwn wella'r gwasanaeth a ddarparwn i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru. Cysylltwch â ni drwy e-bostio crmp@mawwfire.gov.uk


Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales Fire and Rescue Service
Addasu
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru,
Gyda'n Gilydd
Reshaping
Mid and West Wales Fire and Rescue Service,
Together
EIN GWELEDIGAETH
OUR VISION
www.tancgc.gov.uk
TANFIRE
COMMUNITY RISK MANAGEMENT PLAN 2040
Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service




# CRYNODEB O ADRODDIAD YMGYSYLLTU SESIYNAU GALW HEIBIO CRHRC 2040

**HOFFI** DILYN **RHANNU**

**LIKE** FOLLOW **SHARE**

**Ein Negeseuon Diogelwch**

Our Safety Messages

JR2004